OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 3152 (Cy.280)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau Llanharan, Llanhari, Llantrisant a Phont-y-clun) 2008

Gwnaed - - - - 8 Rhagfyr 2008

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) i (4)

Mae Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru, wedi cyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**), dyddiedig Chwefror 2008 ar eu hadolygiad o gymunedau o fewn rhan o Fwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'u cynigion ar eu cyfer.

Penderfynodd Gweinidogion Cymru roi eu heffaith i'r cynigion hynny heb addasiadau.

Mae mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac sydd wedi'u breinio bellach ynddynt hwy i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(**2**):

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau Llanharan, Llanhari, Llantrisant a Phont-y-clun) 2008.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), at unrhyw ddiben a osodir yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Chwefror 2009.

(3) Daw erthygl 8 i rym—

(a) at ddibenion gweithrediadau rhagarweiniol i unrhyw etholiad sydd i'w gynnal neu sy'n ymwneud ag unrhyw etholiad sydd i'w gynnal ar ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr yn 2012, ar 15 Hydref 2011;

(b) at bob diben arall, ar ddiwrnod arferolethol cynghorwyr yn 2012.

(4) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2009, sef y dyddiad penodedig at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(**1**) 1972 p.70.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Map A" yw'r map sydd wedi'i farcio "Map A, Gorchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau Llanharan, Llanhari, Llantrisant a Phont-y-clun) 2008" ac sydd wedi'i adneuo yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "Map B" yw'r map sydd wedi'i farcio "Map B, Gorchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau Llanharan, Llanhari, Llantrisant a Phont-y-clun) 2008" ac sydd wedi'i adneuo yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "Map C" yw'r map sydd wedi'i farcio "Map C, Gorchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau Llanharan, Llanhari, Llantrisant a Phont-y-clun) 2008" ac sydd wedi'i adneuo yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newid Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (**3**);

mae unrhyw gyfeiriad at adran etholiadol yn gyfeiriad at adran etholiadol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; a

pan ddangosir ffin ar fap yn rhedeg ar hyd ffordd, rheilffordd, llwybr troed, cwrs dwr neu nodwedd ddaearyddol cyffelyb, rhaid ei thrin fel petae yn rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd honno.

Llanharan a Phont-y-clun — newid mewn ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

3. Mae'r rhan honno o gymuned Llanharan a ddangosir fel ardal resog "A" ar Fap A—

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Pont-y-clun;

(b) yn ffurfio rhan o ward Cefnyrhendy yng nghymuned Pont-y-clun; ac

(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Pont-y-clun.

Llantrisant a Phont-y-clun — newid mewn ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol.

4. Mae'r rhan honno o gymuned Llantrisant a ddangosir fel ardal resog "B" ar Fap A—

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Pont-y-clun;

(b) yn ffurfio rhan o ward Cefnyrhendy o fewn cymuned Pont-y-clun; ac

(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Pont-y-clun.

Llanharan a Llantrisant — newid mewn ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol.

5. Mae'r rhan honno o gymuned Llanharan a ddangosir fel ardal resog "C" ar Fap A—

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Llantrisant;

(b) yn ffurfio rhan o ward Tonysguboriau o fewn cymuned Llantrisant; ac

(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Tonysguboriau.

(**3**) O.S. 1976/246 (fel y'i diwygiwyd gan amryfal offerynnau statudol nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn statudol hwn).